Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2024

Cyfeirnod dogfen: 4097A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Cefndir: Ein harchwiliadau o osod amcanion llesiant 4

Cynnal ein harholiad yng Nghyngor Gwynedd 5

Sut a phryd mae Cyngor Gwynedd yn gosod ei amcanion llesiant 5

Yr hyn a ganfuom: **Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant ac mae cyfleoedd i gryfhau agweddau ar hyn, yn ogystal â'r trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni a monitro** 7

Argymhellion 10

Atodiadau

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn edrych amdano 11

# Cefndir: Ein harchwiliadau o osod amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf[1]. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant[2]. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r arholiadau hyn, hyd at ddechrau 2025[3].

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal[4].

4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut beth allai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant. Felly, mae'r arholiadau'n cynnwys ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallent wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arholiadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Gwynedd

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Gwynedd (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
- rhoi sicrwydd i'r graddau y cymhwysodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Aethom ati i ateb y cwestiwn cyffredinol 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i osod ei amcanion llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?

8 Buom yn trafod amseriad yr archwiliad gyda'r Cyngor.

9 Casglwyd ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- arsylwi cyfarfodydd y Cyngor;
- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal nifer fechan o gyfweliadau.

## Sut a phryd bu i Gyngor Gwynedd osod ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd Cyngor Gwynedd (y Cyngor) waith ar osod amcanion llesiant newydd yn ystod 2022 ac yna cyhoeddodd ei saith amcan newydd ym mis Mawrth 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.

11 Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion llesiant fel rhan o'i Gynllun Cyngor ar gyfer 2023-28, y cyfeirir atynt fel ei feysydd blaenoriaeth, ac yn ei ddatganiad llesiant sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Gellir gweld Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 a'r datganiad llesiant ar gyfer 2023-24 ar wefan y Cyngor.

**Arddangosyn 1: Amcanion llesiant Cyngor Gwynedd 2023-28**

| |
|---|
| GWYNEDD YFORY Rhoi’r cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc |
| GWYNEDD LEWYRCHUS Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng |
| GWYNEDD GLYD Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau |
| GWYNEDD OFALGAR Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau |
| GWYNEDD GYMRAEG Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i’n trigolion ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned |
| GWYNEDD WERDD Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i’r argyfwng newid hinsawdd |
| GWYNEDD EFFEITHLON Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n effeithiol ac effeithlon |

## Yr hyn a ganfuom: Mae’r Cyngor wedi cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant ac mae cyfleoedd i gryfhau agweddau ar hyn, yn ogystal â’r trefniadau i gefnogi cyflawni a monitro

### Y broses o bennu amcanion llesiant

#### Proses gynllunio a sail dystiolaeth

12 Mae’r Cyngor wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut y gallai’r rhain newid dros amser wrth baratoi ei amcanion llesiant presennol.

13 Er enghraifft, ffynonellau gwybodaeth y Cyngor ar gyfer pennu ei amcanion newydd oedd ei Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol (a gyhoeddwyd yn 2022) a’i waith ymgysylltu diweddar i fframwaith adfywio Ardal Ni. Bu’r Cyngor hefyd yn ystyried sut yr oedd yn perfformio yn erbyn ei amcanion llesiant blaenorol.

14 Ymysg materion eraill, trafodwyd rhesymau gwraidd problemau yn ystod gweithdai aelodau a arweiniodd at fabwysiadu prosiectau o natur ataliol. Er enghraifft, gwella twristiaeth gynaliadwy er budd y gymuned. Cynhaliwyd gweithdai gydag aelodau i drafod a blaenoriaethu prosiectau drafft ac aeth y Tîm Arweinyddiaeth a’r Cabinet ymlaen i sefydlu’r amcanion llesiant drafft. Wrth fyfyrio ar ei drefniadau ar gyfer y cyfnod 2018-23, penderfynodd y Cyngor gyfuno ei amcanion llesiant â’i feysydd blaenoriaeth a sicrhau bod aelodau’r meinciau cefn yn cael mewnbwn cynharach y tro hwn.

15 Fodd bynnag, gan fod y Cyngor bellach yn gwahodd Penaethiaid Adran i ychwanegu unrhyw brosiectau a nodi rhai eraill y gallai fod yn destun newid ar gyfer y cyfnod 2024-25, a nodi rhai eraill y gallai fod yn destun newid, nid yw’n glir a yw’r Cyngor yn bwriadu parhau i gyfeirio at ddata sy’n dod i’r amlwg, wrth iddo ddod ar gael, pan y gwnâi unrhyw newidiadau i’w brosiectau amcanion llesiant. Heb wneud hynny efallai na fydd y Cyngor yn cael ei hysbysu’n llawn o’r wybodaeth sydd ar gael iddo am risgiau, cyfleoedd a heriau penodol i Wynedd a thu hwnt.

#### Ymgynghori a chynnwys eraill

16 Mae’r Cyngor wedi defnyddio cyfuniad o ymgysylltu cynradd ac eilaidd i’w helpu i ddewis ei amcanion llesiant, ond ni all y Cyngor fod yn sicr iddo gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth.

17 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnig cyfle i bobl ddylanwadu ar yr amcanion llesiant drafft, a gyflwynwyd fel 'meysydd blaenoriaeth', rhwng 8 Rhagfyr 2022 a 3 Ionawr 2023. Roedd copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd a lleoliadau Siop Gwynedd. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol a'i rannu gyda sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Roedd aelod etholedig a rhai swyddogion yn siomedig mai dim ond 643 o ymatebion a dderbyniwyd gan eu bod wedi gobeithio byddai rhagor. Roedd y ffigwr hwn yn cynnwys ymatebion gan staff ac aelodau etholedig yn ogystal â grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill megis cynghorau tref a chymuned.

18 Dadansoddodd y Cyngor nodweddion demograffig ymatebwyr ei ymgynghoriad a datgan nad oedd unrhyw batrymau'n amlwg rhwng barn y rhai a rannai nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, gyda chyfradd ymateb mor isel a bod llawer wedi dewis yr opsiynau 'gwell gennyf beidio â dweud', gallai fod yn anodd tynnu unrhyw batrymau dibynadwy o'r data hwn.

19 Defnyddiodd y Cyngor hefyd ffynonellau ymwneud eilaidd, sef fframwaith adfywio Ardal Ni ac ymgynghoriadau Asesiad Llesiant 2022. Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer yr ymarferion hyn yn llawer uwch a gwahoddwyd ymatebwyr i ddarparu gwybodaeth fonitro. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r Cyngor wedi cymharu priodoleddau'r boblogaeth leol â nodweddion yr ymatebwyr. O ganlyniad, ni ellir bod yn sicr bod ei amcanion llesiant wedi'u llywio gan ymatebion sy'n adlewyrchu amrywiaeth llawn trigolion y sir.

20 Mae'r Cyngor wedi nodi rhai partneriaid a fydd yn ei helpu i gyflawni rhannau o'i amcanion llesiant. Er enghraifft, mae Cynllun y Cyngor yn nodi y bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd â sefydliadau fel y bwrdd iechyd lleol a chymdeithas tai cymdeithasol. Fodd bynnag, ni wnaeth y Cyngor gynnwys a thrafod gyda phartneriaid posibl, megis sefydliadau trydydd sector wrth ymgynghori ar yr amcanion llesiant drafft. Oni bai bod y Cyngor yn cynnwys sefydliadau eraill yn weithredol wrth ddatblygu meysydd blaenoriaeth ac amcanion llesiant y Cyngor, bydd yn anodd sicrhau na chollir cyfleoedd pellach i gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol gyda phartneriaid eraill.

## Cynllunio i wella llesiant

21 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth lawn eto o sut mae ei amcanion llesiant yn effeithio ar yr hyn y mae sefydliadau eraill yn ceisio'i gyflawni ac yn ymwneud ag ef.

22 Ni esboniodd y Cyngor sut y bydd ei ddogfennau corfforaethol allweddol ei hun yn cyfrannu at ei amcanion llesiant na pha effaith y bydd yr amcanion hyn yn ei chael ar strategaethau cyrff cenedlaethol a rhanbarthol. Oni bai bod y Cyngor yn cydlynu ei ddull o sicrhau aliniad rhwng ei amcanion llesiant a'r hyn y mae ef ac eraill yn ceisio'i gyflawni, gallai ei allu i wella llesiant a chael effaith eang fod yn gyfyngedig.

23 Roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer blaenoriaethu prosiectau o dan ei amcanion llesiant drafft yn ystyried cydbwyso buddion tymor hwy â diwallu anghenion

preswylwyr ar hyn o bryd. Rhwng mis Awst a mis Medi 2022, defnyddiodd adrannau'r Cyngor dempled i nodi eu syniadau ar gyfer darpar brosiectau Cynllun y Cyngor. Roedd y templed yn gofyn i awduron nodi pa fater neu broblem gyfredol y byddai'r prosiect yn ei helpu, beth fyddai'n cael ei gyflawni o fewn y flwyddyn gyntaf ac o fewn tymor y Cynllun. Yna cynhaliodd y Cyngor weithdy i ddewis y prosiectau a ffefrir lle hysbyswyd aelodau etholedig y dylent ystyried effaith hirdymor y prosiectau o dan yr amcanion llesiant. O ganlyniad, mae llawer o'i brosiectau terfynol wedi'u cynllunio i fod â buddion hirdymor. Er enghraifft, o fewn amcan llesiant Gwynedd Yfory, mae prosiect ar hyrwyddo lles tymor hir disgyblion ysgol drwy leihau'r gost o anfon plant i'r ysgol.

## Cynllunio i gyflawni a monitro yr amcanion llesiant

24 Nid yw'r Cyngor wedi sicrhau cyllid i gyflawni ei holl amcanion llesiant. Er enghraifft, ar adeg ein hadolygiad, nid oedd gan y Cyngor strategaeth ariannol megis cynllun ariannol tymor canolig, gan ei gwneud yn anodd i ni asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer ei amcanion llesiant dros gyfnod Cynllun y Cyngor.

25 Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai pwysau ariannol ei atal rhag cyflawni ei holl amcanion arfaethedig. Yn yr adroddiad yn amgáu'r amcanion llesiant i'w cymeradwyo, dywedodd y Cyngor fod cyfanswm cost cyflawni'r holl brosiectau yn uwch na'r cyllid disgwyliedig ar gyfer eu cyflawni. Bydd y Cabinet yn penderfynu pa weithgareddau amcanion llesiant i'w cymeradwyo ar sail achosion busnes unigol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniant hyd yma i asesu traweffaith unrhyw newidiadau i'r canlyniadau disgwyliedig i'w amcanion llesiant cymeradwy yn ystod eu tymor pum mlynedd.

26 Oni bai bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i asesu effaith peidio â dyrannu cyllid ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor, ni chaiff ei hysbysu'n llawn wrth flaenoriaethu penderfyniadau a bydd mewn perygl o beidio â chyflawni'r canlyniadau disgwyliedig, gan gynnwys buddion ataliol, o'i amcanion llesiant.

27 Er bod y Cyngor yn cynhyrchu llawer o wybodaeth am berfformiad, nid yw'n cael ei thynnu ynghyd mewn ffordd sy'n dangos cynnydd tuag at Gynllun y Cyngor a'i nodau strategol ar hyn o bryd. Er enghraifft, dim ond gyda'r aelod Cabinet perthnasol, aelod cysgodol, dau aelod o'r pwyllgor craffu perthnasol a'r pennaeth adran perthnasol y rhennir yr adroddiadau perfformiad deufisol ar gyfer pob gwasanaeth. Byddai o fantais arddangos cynnydd drwy ddwyn yr wybodaeth hon ynghyd ar lefel gorfforaethol o ystyried natur drawsbynciol amcanion llesiant y Cyngor.

28 Mae'r Cyngor yn y broses o sefydlu ei gerrig milltir a'i fesurau i fesur cynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf, ac mae wedi adnabod bod angen datblygu ei drefniadau ymhellach. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn datgan yn ei Hunanasesiad ar gyfer 2021-22 bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y Ddeddf a gofynion statudol eraill yn cael eu hintegreiddio'n llawn o fewn

fframweithiau cynllunio corfforaethol y Cygnor, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog.

# Argymhellion

**Cyflawni amcanion llesiant**

**A1** Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwaith o bennu'r gyllideb neu lunio cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant newydd y Cyngor, fel bod eglurder ynghylch sut y gallai targedau arbedion neu ansicrwydd ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar ei allu i gyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

**Mesurau a threfniadau monitro priodol**

**A2** Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu mesurau canlyniadau priodol ac yn monitro, adrodd a chraffu'n effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

**Gwella llesiant a chael effaith eang**

**A3** Dylai'r Cyngor fapio sut y gallai gwaith y Cyngor gefnogi amcanion partneriaid, ac i'r gwrthwyneb, wrth bennu amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol fel y gall adnabod cyfleoedd i gydweithio ag eraill.

**Cynnwys ac ymgynghori**

**A4** Dylai'r Cyngor ymestyn ei rwydweithiau rhanddeiliaid wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol a cheisio cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn y sir.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr ydym yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau a fydd yn helpu i lywio ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai dangosyddion cadarnhaol sydd wedi'u teilwra i'r archwiliad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid yw'r rhestr hon wedi'i chynllunio i gael ei defnyddio fel rhestr wirio, ond yn hytrach set ddarluniadol o nodweddion sy'n disgrifio sut allai da edrych.

<table>
<tr><th colspan="2">I ba raddau mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?</th></tr>
<tr><th colspan="2">Cynllunio – A gafodd y broses a roddwyd y corff ar waith i osod ei hamcanion llesiant yn sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy?</th></tr>
<tr><td>Ydy'r corff wedi defnyddio data da dealllusrwydd ata arall i ddeall risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?</td><td>Dangosyddion cadarnhaol<br>• Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol sydd wedi'u defnyddio i lywio dealltwriaeth y corff o'r 'fel y mae'/angen tymor byr.<br>• Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant ar sail dealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau poblogaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Canlyniadau ymarferion ymglymiad/ymgynghori'n lleol<br>– Monitro gwasanaethau a chwynion<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Cymru ac<br>– Asesiadau yn Seiliedig ar Ardaloedd.<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau pontio'r cenedlaethau drwy ei amcanion llesiant.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Ydy'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau ymwneud er mwyn helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymwneud hwnnw -boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae ymwneud yn adlewyrchu arfer dda a chyngor da gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Ydy'r corff wedi ystyried sut gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella lles yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig iawn o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar/ ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio'i gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |
| **Ydy'r corff wedi cynllunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?** | • Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac yn ceisio ymateb i'r heriau tymor byr a hirdymor sy'n bodoli. Eu bwriad oedd gyrru gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Nod yr amcanion yw diwallu angen tymor byr a thymor hwy. Lle mae amcanion wedi'u gosod dros amserlen fer i ganolig, maent wedi'u gosod yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |

| Darparu adnoddau a chyflwyno - A yw’r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy? | |
|---|---|
| **Ydy’r corff wedi ystyried sut mae’n gallu rhoi adnoddau i’r amcanion llesiant?** | • Mae adnoddau wedi’u dyrannu i sicrhau bod modd cyflwyno’r amcanion dros y tymor byr a chanolig; mae’r corff hefyd wedi ystyried risgiau adnoddau mwy hirdymor a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae’r corff wedi dyrannu adnoddau i ddarparu buddion ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **Ydy’r corff wedi ystyried sut gall weithio gydag eraill i wireddu eu hamcanion?** | • Mae’r corff yn tynnu ar ei wybodaeth am amcanion/ gweithgarwch partneriaid, ei berthynas a’i drefniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol. |
| **Monitro ac adolygu: A yw’r corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae’n cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?** | |
| **Ydy’r corff wedi datblygu mesurau priodol a threfniadau monitro?** | • Dyluniwyd mesurau perfformiad i adlewyrchu’r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy’n torri ar draws ffiniau adrannol/ sefydliadol a darparu buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Mae ‘llinyn euraidd’ a fydd yn caniatáu i’r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar y cynnydd i gyflawni’r amcanion. |
| **A yw’r corff yn ceisio dysgu o a gwella sut mae wedi cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy i osod ei amcanion llesiant?** | • Mae’r corff yn dangos hunan ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae’n cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon sy’n peri effaith.<br>• Mae'r corff wedi dysgu wrth osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae’r corff wedi myfyrio ar sut mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o bennu amcanion llesiant, neu y mae’n bwriadu ei wneud. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Fffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Ebost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.